**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Communities, Equality and Local Government Committee
CELG(4)-04-16 Papur 7 / Paper 7

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

1 Chwefror 2016

Annwyl Christine,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr, dyddiedig 22 Ionawr 2016, yn dilyn fy ymweliad â'r Pwyllgor ar 13 Ionawr i ateb cwestiynau am gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17 mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae eich llythyr yn codi nifer o faterion ac rwyf am ddelio â phob un yn ei dro.

**1. Gwariant a Blaenoriaethu**

Fel yr esboniais wrth y Pwyllgor ar 13 Ionawr, mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i thorri'n sylweddol ers 2010, a bydd yn parhau i wneud hynny mewn termau go iawn. Er ein bod wedi gweld cynnydd bychan yn ein Cyllideb yn yr Adolygiad o Wariant, mae'r galw am wasanaethau a'r pwysau o ran costau yn cynyddu'n gyflymach, ac ni allwn barhau i gyllido ein holl wasanaethau ar yr un raddfa nac ar yr un sail. Bu'n rhaid inni wneud penderfyniadau anodd mewn sawl maes er mwyn rhoi blaenoriaeth i'r gwasanaethau hynny y mae pobl yn dibynnu fwyaf arnynt, gan wneud cymaint â phosibl ar yr un pryd i leihau effeithiau'r toriadau i'n cyllideb mewn meysydd eraill.

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau dyfodol yr iaith, a chan weithio o fewn cyd-destun yr heriau uchod, rydym wedi cyfyngu ar y gostyngiad cyffredinol yng nghyfanswm Cyllideb y Gymraeg i 5.9% yn 2016-17 drwy ddyrannu £1.2 miliwn o gronfeydd wrth gefn i gefnogi'r Gymraeg yn y Gymuned. Rydym yn rhoi blaenoriaeth i bob gweithgarwch sy'n cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Fodd bynnag, ni wnaiff cyllid ynddo'i hun sicrhau y bydd yr iaith yn parhau i ffynnu, a byddwn yn parhau i gydweithio â'n sefydliadau partner i sicrhau sylfaen gref i'r iaith ar gyfer y dyfodol.

O ran y cwestiwn penodol ynghylch a gaiff yr £1.2 miliwn ei gynnwys yn y llinell sylfaen ar gyfer cyllideb ddrafft y flwyddyn nesaf, mae'r cynigion ar gyfer y gyllideb a gyhoeddwyd ar 8 Rhagfyr yn adlewyrchu ein blaenoriaethau gwario ar gyfer 2016-17. Mater i'r weinyddiaeth nesaf fydd penderfyniadau gwario gweddill cyfnod yr Adolygiad o Wariant. Rwy'n rhagweld y bydd y cynigion ar gyfer y gyllideb, a gyhoeddir ar gyfer 2017-18 a thu hwnt yn yr hydref, yn cysoni'n llwyr unrhyw addasiadau yn llinellau sylfaen y prif grwpiau gwariant (MEG).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
YP.PrifWeinidog@cymru.gsi.gov.uk • ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran yr anghysondeb bach rhwng dyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL) yn fy mhapur tystiolaeth i a'r papur a gyflwynwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, gallaf gadarnhau mai'r ffigurau yn fy mhapur i yw'r dyraniadau cywir mewn perthynas â BEL y Gymraeg a BEL Comisiynydd y Gymraeg. Camgymeriad gweinyddol oedd yn gyfrifol am y ffigur anghywir.

*Canolfannau Cymraeg*

I droi at y canolfannau Cymraeg a ariannwyd yn 2014-15 a 2015-16 drwy gyllid cyfalaf, mae'r canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu disgwyl gan y canolfannau yn gwahaniaethu yn ôl amgylchiadau pob canolfan. Mae'r canolfannau a ariennir yn tynnu partneriaid ynghyd i ddarparu canolbwynt lleol er mwyn cynnal gweithgareddau cymdeithasol, addysgol ac economaidd. Fel rhan o'r amodau cyllid, rydym wedi gofyn am i adroddiad gael ei gyflwyno, yn ddim hwyrach na 18 mis ar ôl i'r buddiolwyr dderbyn yr arian, a hynny er mwyn asesu llwyddiant y canolfannau. Bydd yr adroddiadau hynny yn sôn am nodau ac amcanion y prosiect; sut bydd y nodau a'r amcanion yn cyfrannu at nodau ac amcanion strategol strategaeth y Gymraeg, 'Iaith fyw: iaith byw' a pholisi 'Bwrw Mlaen'; bydd yn nodi tystiolaeth o'r hyn a gyflawnwyd (gan gynnwys tystiolaeth a gasglwyd gan randdeiliaid a buddiolwyr, lle bo'n berthnasol); a byddant yn hunanasesu effeithiolrwydd ac effaith y prosiect, a'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y prosiect.

**2. Asesiadau o Effaith**

Yn sicr, mae ein cefnogaeth i'r Gymraeg yn rhywbeth llawer ehangach na'r £25.6 miliwn sydd wedi'i neilltuo ar gyfer y Gymraeg yn benodol, ac mae gan holl adrannau Llywodraeth Cymru rôl hollbwysig i'w chwarae. Yn ogystal â gwario ar y Gymraeg fel rhan o'n gwasanaethau cyhoeddus craidd, megis iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg, rydym yn cynnig cefnogaeth penodol i'r Gymraeg mewn nifer o feysydd. Er enghraifft, rydym yn cefnogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i wella darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg; rydym yn rhoi cyllid ar gyfer Mudiad Meithrin i gefnogi plant a theuluoedd; rydym yn cefnogi hyfforddiant Cam wrth Gam ar gyfer ymarferwyr sy'n addysgu'r blynyddoedd cynnar drwy'r Gymraeg; rydym yn cefnogi'r diwydiant cyhoeddi Cymraeg drwy Gyngor Llyfrau Cymru; ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn busnes drwy Busnes Cymru.

Fel y mae ei enw yn ei nodi, mae'r Asesiad Integredig Strategol o Effaith (IIS) yn digwydd ar lefel strategol, a chaiff asesiadau o effaith penderfyniadau gwariant sy'n ymwneud â phortffolios Gweinidogol eu gwneud gan y maes perthnasol. Yn wir, cafodd asesiadau o effaith cynlluniau gwariant portffolios eu gwneud fel rhan o waith craffu pwyllgorau pwnc ar gyllidebau. Dilynir proses dau gam yn unol ag argymhelliad y pwyllgor hwn ac sy'n gydnaws ag adborth gan Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb. Mae hyn yn adlewyrchu hefyd argymhellion Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Arferion Gorau o ran y Gyllideb.

Er ein bod wedi ymrwymo i wella ein dull o asesu effaith, nid diben yr Asesiad Integredig Strategol o Effaith yw cynnwys asesiadau unigol manwl. Caiff asesiadau o effaith ar y Gymraeg eu cynnal mewn perthynas â phob polisi a deddfwriaeth a gyflwynir. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn sgil prif-ffrydio'r Gymraeg mewn polisïau a rhaglenni, caiff gwasanaethau eu datblygu ar sail ddwyieithog.

Yn unol â'r ymrwymiad hwn, rydym wedi gofyn i Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru edrych ar sut y gallai Llywodraeth Cymru wella ei defnydd o asesiadau effaith. Bydd y gwaith hwn yn edrych ar yr arferion yng Nghymru ar hyn o bryd, ac yn ystyried arferion gorau o bob rhan o'r byd, er mwyn rhoi cyngor ar wella'r broses o asesu effaith.

Drwy ddilyn dull integredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwaith gwerthuso, rydym wedi datblygu dealltwriaeth ehangach o'r pwysau trawsbynciol sydd ar y prif feysydd gwasanaeth, yn unol â'n prif flaenoriaethau, gan geisio sicrhau mai'r rheini sydd angen y cyllid fwyaf sy'n ei gael. O ganlyniad, mae gennym ddealltwriaeth ehangach o effaith gyffredinol penderfyniadau gwariant ar ein prif wasanaethau drwy ystyried ein gwasanaethau cyhoeddus yn eu cyfanrwydd yng Nghymru.

O'r dechrau'n deg, wrth inni baratoi ar gyfer y Gyllideb, mae'r dull hwn wedi ein galluogi i ystyried unrhyw effeithiau ar grwpiau sydd wedi'u gwarchod mewn ffordd ehangach nag yn y gorffennol, ac rydym wedi bod yn edrych ar y mater o safbwynt y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn hytrach nag o safbwynt portffolios Gweinidogol. Rydym wedi ystyried effeithiau hirdymor, rydym wedi asesu cyfleoedd i atal problemau, rydym wedi defnyddio dull integredig a chydweithredol o ddeall effeithiau; ac rydym wedi ymrwymo i gynnwys pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Ar ôl pymtheg mis, rydym wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r Asesiadau o Effaith Polisïau ar y Gymraeg i gynnwys cwestiynau mwy penodol ar wariant ar y Gymraeg mewn meysydd polisi. Y nod yw deall yn well faint sy'n cael ei wario ar y Gymraeg mewn perthynas â rhaglenni penodol, a'r effaith ar yr iaith.

**3. Bwrw Mlaen**

Mewn ymateb i'ch cwestiynau ynghylch Bwrw Mlaen, mae'n bwysig ein bod yn glir mai cyllid cyfalaf oedd yr arian a roddwyd i ganolfannau Cymraeg yn 2014-15 a 2015-16, ac nad oedd yn rhan o gyllideb gyffredinol y Gymraeg. Fe'i hariannwyd, yn hytrach, drwy BEL Buddsoddi Strategol. Roedd yna gronfa o £150 mil hefyd yn 2014-15 a chronfa o £300 mil yn 2015-16 o fewn BEL y Gymraeg, a'u nod oedd ysgogi prosiectau arloesol i hyrwyddo'r iaith ledled Cymru. Cronfeydd dros dro oedd y rhain, a dônt i ben eleni.

Fel yr esboniais yng nghyfarfod y Pwyllgor, mae'n bwysig ystyried cyllideb y Gymraeg yn ei chyfanrwydd. Rydym wedi cyfyngu ar y gostyngiad yng nghyllideb y Gymraeg i 5.9% yn gyffredinol ac, fel yr esboniais yn y Pwyllgor, mae'r gostyngiad hwn yn cynnwys prosiectau a oedd ar ddod i ben. Mae yna gydberthynas agos rhwng gweithgareddau a ariennir o dan BEL y Gymraeg a'r rheini a ariennir o dan BEL Cymraeg mewn Addysg. Trosglwyddwyd £825 mil rhwng y ddwy linell wariant i sicrhau gwell cysylltiadau i'r gwahanol raglenni sydd gennym yn y ddau faes, a hynny i sicrhau continwwm mwy effeithiol. Er enghraifft, mae'r gyllideb ar gyfer Twf wedi'i throsglwyddo o linell wariant y Gymraeg i linell wariant Cymraeg mewn Addysg. Mae'n adlewyrchu'r amcan i gynyddu nifer y plant 7 oed sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

O ran gwerth am arian ac effeithiolrwydd, mae'r ystyriaethau hyn yn elfen annatod bob amser o'n holl gynlluniau grant. Rwyf hefyd am gydnabod ei bod weithiau yn anodd pennu union werth ariannol ymdrechion i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, o gofio'r gymysgedd gymhleth o ffactorau sy'n gallu effeithio ar y defnydd o iaith, a'r angen am gyfuniad o ymyriadau neu amodau i sicrhau newid.

**4. Cyllideb Comisiynydd y Gymraeg**

Fel y nodwyd yn y llythyr at Gomisiynydd y Gymraeg, pwrpas y swm untro ychwanegol o £150 mil yr wyf wedi'i ddyrannu i'r Comisiynydd y flwyddyn ariannol hon yw lliniaru ar y pwysau o ran paratoi i weithredu'r safonau yn ystod 2015-16. Mae unrhyw hyblygrwydd sydd gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â chyllid wedi'i nodi yn y cytundeb fframwaith rhwng y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru.

## 5. Addysg

*Y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*

Rwyf wedi esbonio o dan bennawd Bwrw Mlaen uchod y rhesymeg dros drosglwyddo cyllid ar gyfer rhai gweithgareddau rhwng BEL y Gymraeg a BEL Cymraeg mewn Addysg.

Bydd gostyngiad o £740 mil yn BEL Cymraeg mewn Addysg, ac fe wnawn hynny drwy leihau'r gwariant ar raglen Cymraeg i Oedolion £500 mil ac ar brosiect Twf £200 mil. Daw'r £40 mil arall drwy arbedion o ran erfyn diagnostig y Gymraeg.

Mae sefydlu Endid Cenedlaethol newydd Cymraeg i Oedolion y llynedd wedi arwain at newid sylfaenol yn y ffordd y caiff y maes ei weinyddu, gan arwain at arbedion a ddylai leihau effaith y toriadau. Rydym yn hyderus y bydd hyn yn help i ddiogelu gwasanaethau'r rheng flaen.

Mae'r penderfyniadau anodd a wnaed yn y maes hwn wedi ein galluogi i warchod meysydd sy'n cynnal y sector addysg statudol, megis hyfforddi ymarferwyr a datblygu adnoddau addysgu cyfrwng Cymraeg.

*Twf*

Daw contract presennol Twf i ben ym mis Mawrth 2016. Caiff y prosiect ei ailgontractio a'i addasu mewn ymateb i ofynion newydd yn y maes, ac mae hyn yn rhoi'r cyfle inni ailystyried sut caiff y gwasanaeth ei ddarparu er mwyn gwneud arbedion. Er enghraifft, aiff gwaith marchnata sy'n ymwneud â chontract newydd "Twf – Cymraeg i Blant" yn rhan o gylch gwaith Is-adran y Gymraeg, er mwyn lleihau gwariant a sicrhau bod y gwaith yn ganolog i'n cynlluniau i farchnata'r Gymraeg. Caiff trefniadau monitro'r contract newydd eu sefydlu ar ôl dyfarnu'r contract.

*Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol*

Ers ei sefydlu yn 2011, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi gwneud cynnydd gwirioneddol o ran gwella darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Mae'n bwysig bod gweithgareddau'r Coleg yn parhau i gael eu cynnal ar lefel sy'n cynnal y momentwm presennol. Yn y pen draw, mater i CCAUC yw penderfynu sut mae'n dyrannu ei adnoddau yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Bydd llythyr cylch gwaith y Gweinidog a gaiff ei anfon i CCAUC ddechrau 2016 yn rhoi arweiniad clir i'w annog i barhau i gefnogi'r Coleg ac addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y sector addysg uwch ar lefel sy'n cynnal y momentwm presennol.

*Dechrau'n Deg*

Rhaid i bob awdurdod lleol amlinellu yn eu cynlluniau Dechrau'n Deg y trefniadau sydd ganddynt mewn perthynas â gofal plant cyfrwng Cymraeg a/neu ddwyieithog, lle mae rhieni wedi mynegi yr hoffent hynny. Caiff perfformiad pob awdurdod lleol yn erbyn yr ymrwymiad hwn ei fonitro'n agos. Mae data'r flwyddyn ddiweddaraf (2014-15) y mae data ar gael ar ei chyfer yn dynodi bod awdurdodau lleol wedi darparu ar gyfer 96% o'r ceisiadau am ofal plant drwy'r Gymraeg mewn lleoliadau Dechrau'n Deg.

Mae canllawiau strategol Dechrau'n Deg yn parhau i'w gwneud yn glir bod yn rhaid i awdurdodau lleol sefydlu trefniadau i fodloni gofynion rhieni am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a/neu ddwyieithog.

Rhaglen ar gyfer plant o dan 4 oed yw Dechrau’n Deg. Cynigir gofal plant rhan-amser yn rhad ac am ddim i blant 2-3 oed. Mae targedau’r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ymwneud â disgyblion 7 oed. Er eu bod yn ddau fater gwahanol, rydym yn sylweddoli y bydd darpariaeth Gymraeg Dechrau’n Deg yn cyfrannu at yr ymrwymiad ehangach i’r Gymraeg. Fodd bynnag, ni fyddai cynnydd sylweddol yn y galw ymhlith rhieni, ac yn y ddarpariaeth Gymraeg yn sgil hynny, yn effeithio’n sylweddol ar allu Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei tharged, sef addysgu 25% o blant 7 oed drwy’r Gymraeg.

Mae darpariaeth Gymraeg yn dal i fod yn rhan annatod o Dechrau’n Deg ac mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn ofynnol bob amser i awdurdodau lleol ymateb i gais rhieni o ran cyfrwng iaith a chynnig darpariaeth Gymraeg lle bo galw. Mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i sicrhau bod trefniadau ar waith i ymateb i gais rhieni am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a/neu ddwyieithog ac, yn wir, i ofyn i rieni a hoffent fanteisio ar ddarpariaeth Gymraeg.

**6. Cyngor Llyfrau Cymru**

Mae’r setliad cyllidebol ar gyfer Llywodraeth Cymru wedi bod yn anodd a bu’n rhaid cwtogi mewn nifer o feysydd. Nid yw’r penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud yn ddifeddwl. Fodd bynnag, rydym wedi gwrando’n ofalus iawn ar y sector cyhoeddi, gan roi ystyriaeth benodol i’r goblygiadau o ran y Gymraeg, ac rwy’n falch o ddweud na fyddwn yn cwtogi, bellach, yn yr achos hwn.

Yn gywir

**CARWYN JONES**